

Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Ileoliadau nas cynhelir

Hydref 2022

Diben arolygiadau ar y cyd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Mae Estyn ac AGC yn gyfrifol am gynnal arolygiadau ar y cyd o leoliadau meithrin sy'n derbyn cyllid gan Awdurdodau Lleol i ddarparu addysg, ac wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru:

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru>

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

<https://arolygiaethgofal.cymru>

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Beth yw'r diben?

Mae hwn yn rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio er gwybodaeth yn ystod arolygiad ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu, i gefnogi trywyddau ymholi penodol.

Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?

Ar gyfer holl arolygwyr lleoliadau nas cynhelir

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?

Dyddiad cyhoeddi: 10/10/22

Cynnwys

Arweiniad atodol.....	4
Cyflwyniad.....	4
Sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY.....	6
Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau a reoleiddir nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser	7
Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (EYALNLO)	9
Cynllun Datblygu Unigol (gelwir weithiau yn gynllun unedig)	10
Y Gymraeg	10
Cwestiynau Defnyddiol.....	10

Arweiniad atodol

Ein dogfennau allweddol sy'n arwain gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar y cyd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a gofal plant.

Mae dogfennau'r arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion allweddol, ystyriaethau ac adnoddau ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymhelaethu ar rai agweddau ar addysg / gofal plant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau. Bydd arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried pob grŵp oedran sy'n derbyn gofal yn y lleoliad, gan gynnwys gofal y tu allan i'r ysgol.

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn hollgynhwysfawr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, efallai y byddant yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai dogfennau'r arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o'n trefniadau arolygu. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd cadarnhaol i sicrhau mai hwn yw'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl ar gyfer y staff ym mhob lleoliad
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull o arolygu sy'n canolbwyntio ar y plentyn
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob lleoliad cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r amrywiaeth gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig ym mhob lleoliad

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad hwn yn cynorthwyo arolygwyr i werthuso'r deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**. Mae'n cynnwys gwybodaeth fuddiol i gynorthwyo ag arolygu deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Dylai arolygwyr ddefnyddio'r arweiniad hwn ochr yn ochr â'r llawlyfr Arweiniad Arolygu ar y Cyd ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau a reoleiddir nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser.

Hefyd, dylai arolygwyr ymgysgu â'r **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf, ynghyd â'r Cod hwn a rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc. Mae'n gosod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plant wrth wraidd y broses i gynllunio'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i ddatblygu'n effeithiol a chyflawni eu llawn botensial.

Diwygio ADY

Pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Derbyniodd y ddeddfwriaeth Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018 a dechreuwyd ei hadnabod fel [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#) ('y Ddeddf': Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Roedd y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth am fframwaith statudol newydd i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY.

O dan y Ddeddf, disodlwyd y term 'angen addysgol arbennig' (AAA) gan y term 'angen dysgu ychwanegol' (ADY). Disodlwyd y term 'darpariaeth addysgol arbennig' gan y term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol'. Yn wreiddiol, trefnwyd rhoi'r newidiadau hyn ar waith dros gyfnod o dair blynedd, rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2023, ochr yn ochr â chyflwyno'r rhaglen trawsnewid ADY ehangach. Fodd bynnag, o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, ni ddechreuodd y cyfnod hwn tan fis Medi 2021. Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae deddfwriaeth AAA bresennol yn parhau i fod yn berthnasol, a bydd hynny'n parhau hyd nes bydd y cyfnod gweithredu wedi dod i ben.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae amrywiaeth wedi bod yn y modd y mae lleoliadau ac awdurdodau lleol (ALlau) wedi defnyddio'r termau 'AAA' ac 'ADY.' Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'n debygol y bydd anghysondeb yn parhau yn y derminoleg a ddefnyddir gan wahanol ysgolion a lleoliadau. Yn benodol, efallai bydd y term 'AAA' yn cael ei ddefnyddio o hyd yn ystod y cyfnod gweithredu ar gyfer y plant/dysgwyr hynny sydd â datganiad o AAA yn hytrach na chynllun datblygu unigol (CDU). Ni ddylai arolygwyr ganolbwyntio ar y derminoleg a ddefnyddir. Yn hytrach, dylent werthuso pa mor dda y mae'r lleoliad yn cynllunio, yn monitro ac yn adolygu darpariaeth ar gyfer yr holl blant sydd ag ADY.

Mae Iaith Pawb, cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, yn cydnabod hawl plant ag ADY i dderbyn darpariaeth yn yr iaith o'u dewis, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer anghenion addysgol arbennig diwygiedig Cymru (2004).

Mae Cod ADY Cymru yn cynnwys arweiniad statudol ar gyfer ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac eraill ar y system anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch ddod o hyd i'r Cod yma: [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#).

Rhaid i holl ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar nas cynhelir sy'n derbyn cyllid awdurdod lleol ystyried yr arweiniad a amlinellir yn y Cod ADY. Os yw plentyn yn derbyn addysg feithrin a ariennir gan awdurdod lleol mewn darparwr nas cynhelir, dylai'r darparwr helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau ADY o ran y plentyn hwnnw, pan ofynnir, gan gynnwys mewn achosion lle mae plentyn yn derbyn addysg feithrin gan ddarparwyr a gynhelir a darparwyr nas cynhelir.

Sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY.

Mae defnyddio'r profion i sefydlu p'un a oes gan blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol ADY ychydig yn wahanol i'r rhai sydd o oedran ysgol gorfodol.

Y prawf cyntaf o hyd yw p'un a oes gan y plentyn anhawster neu anabledd dysgu, ond mae ystyr hynny ychydig yn wahanol. Mae'n ymwneud â ph'un a yw'r plentyn, neu a fyddai'r plentyn, pan fydd o oedran ysgol gorfodol, pe na bai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei threfnu, yn debygol o fod ag

- i. anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
- ii. anabledd (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n atal neu'n llesteirio'r plentyn rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir.

Mae'r ail brawf hefyd yr un fath â'r prawf ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc, sef p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer yr anhawster neu'r anabledd dysgu. Fodd bynnag, ar gyfer plant o dan dair oed, mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn golygu darpariaeth addysgol o unrhyw fath. Ar gyfer y rhai sy'n 3 oed ac yn hŷn, mae gan ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yr un ystyr â'r hyn ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc (fel yr amlinellir uchod). Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant o dan dair oed ychydig yn wahanol i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r plant hyn mewn oedran lle mae addysg a gynhelir ar gael fel mater o drefn.

Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant o dan dair oed fod mewn llawer o ffurfiau; er enghraifft, gwaith grŵp neu gymorth unigol – lle mae'n ddarpariaeth addysgol o unrhyw fath. Gallai hyn gynnwys darpariaeth addysg mewn Dechrau'n Deg neu gymorth iechyd, corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd arbenigol, er enghraifft. Gellir darparu hyn mewn lleoliad addysg neu yn rhywle arall.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau a reoleiddir nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser

Mae angen i arolygwyr adrodd ar effeithiolrwydd ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol y lleoliad fel rhan o **Thema 3 'Gofal a datblygiad'** yn yr arweiniad. Mae'r thema hon yn ymwneud â ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn rhwng 0 a 12 oed a allai fynychu'r lleoliad. Fodd bynnag, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY o dan bob thema arolygu.

Cyfrifoldeb arolygwyr Estyn ac AGC yw casglu tystiolaeth i gefnogi gwerthuso effeithiolrwydd ddarpariaeth ADY y lleoliad. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth ategol o ystod o ffynonellau cyn llunio barn ar hyn.

Yn adran **3.3 'Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol?'**, dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd ddarpariaeth ADY y lleoliad trwy ystyried:

- y graddau y mae'r lleoliad yn cynnig mynediad llawn at yr holl feysydd dysgu i blant ag ADY
- pa mor dda y mae'r lleoliad yn nodi, yn asesu ac yn ymateb i anghenion unigol plant
- pa mor dda y mae'r lleoliad yn integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant ag ADY, fel eu bod yn gwneud cynnydd da yn unol â'u cyfnod datblygu
- y graddau y mae ymarferwyr yn deall ac yn ymateb i ddiwallu anghenion unigol
- pa mor effeithiol y mae'r lleoliad yn cynnal adolygiadau rheolaidd yn canolbwyntio ar yr unigolyn o gynnydd plant, sy'n cynnwys rhieni / gofalwyr a'r holl asiantaethau niferus perthnasol
- y defnydd o wasanaethau arbenigol fel swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cludo a gwasanaethau cymdeithasol, a'u cyfraniad.

Ym mis Medi 2021, gwnaethom ychydig o newidiadau i'r fframwaith arolygu ar y cyd i adlewyrchu pwysigrwydd gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer ADY yn well ym mhob un o'r **chwe thema** bron. Bydd adrodd am ADY yn parhau i ymddangos yn Thema 3 yn bennaf, ond gallai arolygwyr nodi gwybodaeth berthnasol yn sail y dystiolaeth ar gyfer themâu eraill, yn ogystal ag adrodd ar hyn yn y prif werthusiad. Er enghraifft, gallai arolygwyr adrodd ar sut mae arweinwyr wedi gwella ddarpariaeth ADY neu i'r gwrthwyneb, os yw'r ddarpariaeth ADY yn y lleoliad yn wael, yn Thema 6.

Themâu 1 a 2 – Lles a Dysgu

Rydym wedi osgoi ychwanegu datganiad at Themâu 1 a 2 rhag ofn y bydd modd adnabod plant unigol yn yr adroddiad. Fodd bynnag, byddech yn adrodd ar effaith ddarpariaeth y lleoliad ar yr **holl** blant, gan gynnwys y rhai ag ADY. Gallai arolygwyr nodi unrhyw arsylwadau neu wybodaeth berthnasol yn sail y dystiolaeth ar gyfer y

ddwy thema er mwyn cefnogi'r farn ar gyfer Thema 3 – disgwylir i **bob** arolygydd gyfrannu tystiolaeth at yr holl themâu pryd bynnag y bydd hynny'n briodol.

Thema 4 – Addysgu ac asesu

- **4.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion plant?** Dim newidiadau i 4.1, er ei bod yn ymhlyg yn y testun fod ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu a chwarae i ddiwallu anghenion yr **holl** blant.
- **4.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant?** Mae'r datganiadau canlynol yn parhau yn yr arweiniad ac yn ymwneud yn dda â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg newydd:

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae ymarferwyr:

yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac effaith *anghenion dysgu ychwanegol ar ddatblygiad*

yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, *gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol*, plant mwy abl a thalentog a phlant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol

Asesu

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae gweithdrefnau'r lleoliad yn hylaw ac yn galluogi ymarferwyr i:

- asesu plant yn rheolaidd ac yn ofalus a chofnodi arsylwadau ac asesiadau *sy'n nodi cryfderau plant, eu meysydd i'w gwella a'u cynnydd, yn effeithiol*
- defnyddio deilliannau asesiadau i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion plant, ac yn bodloni eu diddordebau, *gan gynnwys darparu cymorth ychwanegol pan fydd angen*
- *ymgysylltu â rhieni / gofalwyr* er mwyn ennill safbwynt unigol am gryfderau pob plentyn, a'i feysydd i'w datblygu

Thema 5 – Yr Amgylchedd

5.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd y safle a'r defnydd ohono?

- Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae pob un o'r plant, *gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael mynediad cyfartal at gyfleusterau, adnoddau a gweithgareddau'r lleoliad.*
Dylai arolygwyr werthuso p'un a oes digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion plant, *gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol*

Thema 6 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'n ymhlwg yn y testun ar gyfer Thema 6 fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer yr **holl** blant, gan gynnwys y rhai ag ADY. Efallai bydd angen i arolygwyr gofnodi effaith arweinwyr ar y ddarpariaeth ADY yn Thema 6, yn enwedig os yw'n rhagorol, neu i'r gwrthwyneb, yn wael. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys datganiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ADY yn 6.4.

- **6.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?** Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r lleoliad yn glir am ei rôl a'i gyfrifoldebau i sefydlu ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r lleoliad yn gweithio gyda rhieni / gofalwyr, Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar a phartneriaid eraill i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (EYALNLO)

Mae gan Awdurdodau Lleol rôl arwyddocaol o ran cynorthwyo darparwyr y Blynyddoedd Cynnar (gweler Penodau 10 ac 11 y Cod am fwy o wybodaeth), gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir, â bodloni gofynion y cod ADY. Mae angen i bob awdurdod lleol gael Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (EYALNLO) nawr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y ddeddf.

Bydd gan EYALNLO yr awdurdod lleol ran bwysig mewn gwella'r drefn o nodi anghenion yn gynnar; sefydlu llwybrau atgyfeirio a chodi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid amlasiantaethol; sicrhau cynllunio gwell ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol; a helpu sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y medrau, y mecanweithiau a'r offer priodol i gynorthwyo plant ifanc ag ADY. **Dylai arolygwyr nodi nad oes disgwyliad mwyach i leoliadau meithrin nas cynhelir fod â'u cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) eu hunain.**

Cynllun Datblygu Unigol (gelwir weithiau yn gynllun unedig)

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a chynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer plant a gefnogir trwy Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy ar hyn o bryd.

Os yw'r darparwr yn amau efallai bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gallai gyfeirio'r plentyn hwnnw at yr awdurdod lleol. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu p'un a oes gan y plentyn ADY, ac os felly, yn rhoi CDU ar waith.

Ceir dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt, a pharatoi CDUau. Hefyd, mae rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses sy'n nodi ei ADY ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn un o amcanion sylfaenol y system ADY.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo baratoi CDU ar gyfer y plentyn. Cyn cwblhau CDU, dylai'r awdurdod lleol roi cyfle i'r rhieni roi sylwadau ar ddrafft ohono, a dylai eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu yn unol â nhw yn briodol. Gallai hyn olygu diweddarau'r CDU drafft, neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach. Pan fydd yn barod, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i riant y plentyn.

Y Gymraeg

Bydd gofyn i ddarparwyr ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg; bydd y ddyletswydd hon yn un barhaus, yn hytrach na phenderfyniad untro. Os oes angen y ddarpariaeth hon, rhaid dogfennu hyn yn y CDU a rhaid cymryd 'yr holl gamau rhesymol' i sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg. Mae mecanwaith wedi'i gynnwys yn y Ddeddf i ddileu trwy reoliadau brawf 'yr holl gamau rhesymol', fel bod y dyletswyddau i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn ddiamed dros gyfnod.

Cwestiynau Defnyddiol

Cwestiynau i'r arweinwyr

Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad o'r Cod ADY gorfodol, a sut mae'n effeithio arnyn nhw?

Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad fod gan eu hawdurdod lleol Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig y Blynnyddoedd Cynnar (ALNLO), ac a ydynt yn ymwybodol o sut mae rôl y swyddog yn effeithio arnyn nhw?

Pa mor ymwybodol yw'r lleoliad o ba wybodaeth y mae'r ALI wedi'i rhannu â rhieni ynghylch ADY, EYALNLO yr ALI a'r system ADY?

A yw'r lleoliad wedi derbyn gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALI sy'n eu galluogi i helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau ADY o ran plentyn sydd ag ADY?

- A yw'r hyfforddiant wedi eu gwneud yn ymwybodol o'r egwyddorion sy'n ategu'r system ADY a sut mae hyn yn effeithio arnyn nhw (dull wedi'i seilio ar hawliau; nodi, ymyrryd ac integreiddio yn gynnar; cydweithio ac integreiddio; addysg gynhwysol; system ddwyieithog).
- A yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALI sy'n eu galluogi i ddeall y diffiniad o ADY a nodi p'un a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY? (pa mor hyderus ydynt yn gwneud hynny?)
- Pa hyfforddiant a chymorth mae'r lleoliad wedi eu cael i gynorthwyo'r awdurdod lleol i fodloni gofynion CDU?
- Pa hyfforddiant a chymorth mae'r lleoliad wedi eu cael i gynorthwyo'r awdurdod lleol i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am bontio yn cael ei chynnwys yn y CDU pan fydd plentyn yn gadael y lleoliad?
- A yw'r lleoliad wedi cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr ALI sy'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o anawsterau neu anabledau dysgu a gwmpesir gan y cod?
- A yw'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol yn hysbys i'r lleoliad a rhieni / gofalwyr er mwyn osgoi a datrys unrhyw anghytuno ynghylch cymorth ADY neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol cyn gynted ag y bo modd?
- A yw'r lleoliad yn ymwybodol y bydd gofyn i wasanaethau, gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir, ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc yn Gymraeg?